

## Canllawiau Gweithredu

### Taliad ychwanegol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol wedi'i alinio â'r Cyflog Byw Gwirioneddol

Gofynnir i Awdurdodau Lleol rannu'r canllawiau hyn â'r darparwyr gofal perthnasol.

Ar 10 Chwefror cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol daliad ychwanegol o £1,498 y pen ar gyfer staff gofal cymdeithasol:

[Datganiad Ysgrifenedig Taliad ychwanegol i staff gofal cymdeithasol ynghyd â'r cyflog byw gwirioneddol \(10 Chwefror 2022\) | LLYW.CYMRU](#)

Mae'r swm hwn yn cynnwys y gyfradd dreth sylfaenol a chyfraniadau yswiriant gwladol ac ar ôl didyniadau bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael £1,000.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau'r meini prawf cymhwysra ar gyfer y taliad hwn. Fe'u cyhoeddir yn:

[Taliad ychwanegol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol wedi alinio gyda'r Cyflog Byw Gwirioneddol | LLYW.CYMRU](#)

[Additional payment for social care workers aligned to the Real Living Wage | GOV.WALES](#)

Gwneir y taliad i staff gofal cymdeithasol a oedd yn cael eu cyflogi mewn rôl gymwys ar 31 Mawrth 2022 a'r rhai a ddechreuodd mewn rôl gymwys rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022.

Mae'r nodyn hwn yn nodi sut y caiff y taliad i staff gofal cymdeithasol ei reoli.

Ystyrir bod y taliadau hyn a wneir i gyflogeion yn enillion a byddant yn agored i dreth, cyfraniadau yswiriant gwladol ac ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr, lle y bo'n briodol. Byddant hefyd wedi'u cynnwys mewn prosesau cyfrifo budd-daliadau.

Bydd pob aelod cymwys o staff yn cael taliad o £1,498 ar yr amod ei fod yn cwblhau ffurflen hawlio ac yn ei dychwelyd i'w gyflogwr (dylai'r ffurflen hon gael ei chadw gan y cyflogwr fel prawf o gymhwysra).

Dylai'r taliadau hyn gael eu gwneud drwy'r gyflogres er mwyn sicrhau y caiff treth incwm ac yswiriant gwladol eu trin yn briodol a hwyluso'r hysbysiadau priodol i'r asiantaethau budd-daliadau perthnasol.

#### Trosolwg o'r Broses Gyflawni

**Ar gyfer staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2022** (ar yr amod eu bod yn gymwys)

- Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau a ffurflenni hawlio i awdurdodau lleol.
- Mae awdurdodau lleol yn rhoi canllawiau a ffurflenni hawlio i gyflogwyr.
- Mae cyflogwyr yn nodi staff cymwys ac yn rhoi ffurflenni hawlio iddynt.
- Mae pob aelod cymwys o staff yn cwblhau ffurflen hawlio ac yn ei dychwelyd i'w gyflogwr.
- Mae cyflogwyr yn cadw ffurflenni hawlio.

- Mae cyflogwyr yn rhoi rhestr o staff cymwys mewn swydd ar 31 Mawrth 2022, ynghyd â'u rhif yswiriant gwladol a chategori eu swydd i awdurdodau lleol **erbyn 15 Ebrill 2022**.
- Mae awdurdodau lleol yn rhoi £1,498 i gyflogwyr ar gyfer pob aelod cymwys sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr hon erbyn **13 Mai 2022**.

#### **Ar gyfer aelodau newydd o staff sy'n cael eu cyflogi rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022 (ar yr amod eu bod yn gymwys)**

- Mae cyflogwyr yn rhoi ffurflenni hawlio i aelodau newydd o staff wrth iddynt gael eu cyflogi.
- Mae pob aelod newydd cymwys o staff yn cwblhau ffurflen hawlio ac yn ei dychwelyd i'w gyflogwr.
- Mae cyflogwyr yn cadw ffurflenni hawlio.
- Mae cyflogwyr yn rhoi rhestr o ddechreuwy newydd ynghyd a'u rhifau yswiriant gwladol a chategori eu swydd i awdurdodau lleol **erbyn 18 Mai 2022**.
- Mae awdurdodau lleol yn rhoi £1,498 i gyflogwyr ar gyfer pob aelod cymwys ar y rhestr cyn gynted â phosibl ond, yn ddelfrydol, **erbyn 31 Mai 2022**.
- Ar gyfer unrhyw ddechreuwy newydd sy'n ymuno ar ôl i'r rhestr gael ei hanfon – gweler yr adran ar ddechreuwyr hwyr isod.

#### **Ar gyfer pob aelod o staff**

- Mae cyflogwyr yn talu staff fel rhan o gyflogres Mehefin 2022
- Mae cyflogwyr yn hawlio unrhyw gostau cyflogwyr ychwanegol (yswiriant gwladol a phensiwn) gan yr awdurdod lleol **erbyn 31 Gorffennaf 2022**.
- Mae'r awdurdod lleol yn adhawlio arian gan Lywodraeth Cymru **erbyn 30 Medi 2022**. Rhaid i'r hawliad hwn nodi'r aelodau hynny o staff mewn post ar 31 Mawrth a'r rhai a ddechreuodd yn eu swydd rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022 yn glir ar wahân.

#### **Crynodeb o'r llinell amser:**

- **31 Mawrth** – Mae cyflogwyr yn nodi staff mewn swydd
- **Erbyn 15 Ebrill** – Mae cyflogwyr yn hysbysu ALLau am staff mewn swydd ar 31 Mawrth
- **Erbyn 13 Mai** – Mae ALLau yn rhoi arian i gyflogwyr ar gyfer staff mewn swydd ar 31 Mawrth.
- **18 Mai** – Mae cyflogwyr yn hysbysu ALLau am unrhyw ddechreuwy newydd
- **Erbyn 31 Mai** – Mae ALLau yn rhoi arian i gyflogwyr ar gyfer dechreuwy newydd
- **Erbyn 30 Mehefin** – mae cyflogwyr yn talu cyflogeion cymwys
- **Erbyn 31 Gorffennaf** – mae cyflogwyr yn hawlio costau YG a phensiwn cyflogwyr
- **Erbyn 30 Medi** – mae ALLau yn adhawlio arian gan Lywodraeth Cymru

Dylai'r unig eithriadau i'r llinell amser uchod fod ar gyfer y canlynol:

- Staff sydd wedi dewis cael taliadau fesul cam dros 5 mis (gweler yr adran ar daliadau fesul cam);
- apeliadau gan staff sy'n dal i fynd rhagddynt; neu
- ymchwiliadau sy'n dal i fynd rhagddynt i daliadau dyblyg posibl.

## Y Broses Gyflawni

Bydd y broses gyflawni yn dibynnu ar natur y gyflogaeth.

### 1. Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol

- Mae awdurdodau lleol yn nodi staff cymwys y maent yn eu cyflogi'n uniongyrchol (h.y. sydd ar eu cyflogres) ac yn rhoi'r ffurflen hawlio iddynt.
- Mae staff yn cwblhau ac yn cyflwyno'r ffurflen hawlio.
- Mae awdurdodau lleol yn ychwanegu £1,498 at y cyflog gros cyn didyniadau ar gyfer staff cymwys fel rhan o gyflogres Mehefin 2022.
- Mae awdurdodau lleol yn rhoi gwybod am y taliadau hyn drwy gyflwyniad taliadau llawn i CThEM ar neu cyn y dyddiad talu.
- Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i ariannu costau'r taliad gan gynnwys unrhyw gostau yswiriant gwladol neu bensiwn gwirioneddol cyflogwyr yr aed iddynt **erbyn 30 Medi 2022**.

### 2. Cyflogwyr staff cymwys (nad ydynt yn staff awdurdodau lleol) (Gan gynnwys Gwasanaethau Gofal Cartref)

- Mae awdurdodau lleol yn rhoi ffurflenni hawlio i gyflogwyr ac yn gofyn am restr o staff cymwys mewn swydd ar 31 Mawrth 2022.
- Mae staff cymwys yn cwblhau ffurflenni hawlio ac yn eu cyflwyno i'w cyflogwyr.
- Mae cyflogwyr yn rhoi rhestr o staff cymwys mewn swydd ar 31 Mawrth 2022 (sydd wedi cyflwyno ffurflenni hawlio) i awdurdodau lleol **erbyn 15 Ebrill 2022**. Rhaid i'r rhestrau hyn gynnwys enwau, rhifau yswiriant gwladol a chategori'r swydd.
- Mae awdurdodau lleol yn edrych ar y rhestrau hyn i weld a oes unrhyw rifau yswiriant gwladol dyblyg (Dylai'r gwiriadau hyn gael eu cynnal ym mhob awdurdod lleol. Caiff gwiriadau rhwng awdurdodau lleol eu cynnal yn ddiweddarach – gweler yr adran ar ddyblygiadau) a rhoddir arian i gyflogwyr yn seiliedig ar £1,498 ar gyfer pob aelod cymwys o staff **erbyn 13 Mai 2022**.
- Mae cyflogwyr yn rhoi rhestrau atodol o unrhyw ddechreuwr newydd mewn rolau cymwys ar ôl 1 Ebrill 2022 i awdurdodau lleol **erbyn 18 Mai 2022** (gweler yr adrannau ar ddechreuwr newydd a dechreuwr newydd hwyr isod). Rhaid i'r rhestrau hyn gynnwys enwau, rhifau yswiriant gwladol a chategori'r swydd.

- Mae awdurdodau lleol yn edrych ar y dechreuwyr hwyr i weld a oes unrhyw rifau yswiriant gwladol dyblyg ac yn rhoi arian i gyflogwyr yn seiliedig ar £1,498 ar gyfer pob aelod cymwys o staff **erbyn 31 Mai 2022**. Dylai'r gwiriadau hyn gael eu cynnal ym mhob awdurdod lleol. Caiff gwiriadau rhwng awdurdodau lleol eu cynnal yn ddiweddarach (gweler yr adran ar ddyblygiadau).
- Mae cyflogwyr yn ychwanegu £1,498 at y cyflog gros cyn didyniadau ar gyfer pob aelod cymwys o staff fel rhan o gyflogres Mehefin 2022.
- Mae cyflogwyr yn rhoi gwybod am y taliadau hyn drwy gyflwyniad taliadau llawn i CThEM ar neu cyn y dyddiad talu.
- Mae cyflogwyr yn anfon ffurflen hawlio i awdurdodau lleol fel cadarnhad o daliad y gyflogres gan gynnwys unrhyw gostau yswiriant gwladol neu bensiw cyflogwr gwirioneddol yr aed iddynt.
- Mae awdurdodau lleol yn rhoi unrhyw arian atodol i gyflogwyr ar gyfer unrhyw gostau yswiriant gwladol a/neu bensiw cyflogwr yr aed iddynt.

### 3. Cynorthwyr Personol

Nodir y prosesau safonol ar gyfer talu cynorthwyr personol isod. Fodd bynnag, gan fod y trefniadau ar gyfer talu cynorthwyr personol yn gallu amrywio ledled Cymru, gall awdurdodau lleol addasu'r prosesau hyn os gallant nodi dull mwy effeithiol a chost-effeithiol o wneud y taliad. Pa broses bynnag a ddefnyddir, yr egwyddorion sylfaenol y mae'n rhaid eu dilyn yw:

- Rhaid i'r cynorthwydd personol gyflwyno ffurflen hawlio a ddylai gael ei hanfon, yn ddelfrydol, at ei gyflogwr ond rhaid iddi o leiaf gael ei chadw gan yr awdurdod lleol neu fod ar gael iddo.
- Rhaid hysbysu'r sawl sy'n cyflogi'r cynorthwydd personol fod y taliad yn cael ei wneud.

Y prosesau safonol a awgrymir yw:

#### **Ar gyfer Cynorthwyr Personol a delir o daliadau uniongyrchol, a reolir gan wasanaeth cymorth cyflogres**

- Mae awdurdodau lleol yn nodi Cynorthwyr Personol cymwys ar 31 Mawrth 2022.
- Mae awdurdodau lleol yn nodi unrhyw Gynorthwyr Personol newydd sydd wedi dechrau rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022.
- Mae awdurdodau lleol yn dosbarthu ffurflenni hawlio i bob Cynorthwydd Personol cymwys.
- Mae Cynorthwyr Personol yn cwblhau ffurflenni hawlio ac yn eu cyflwyno i'w cyflogwr (yr unigolyn sy'n cael gofal) a fydd yn eu hanfon ymlaen i'r awdurdod lleol (comisiynu).

- Mae awdurdodau lleol yn cyfarwyddo gwasanaethau cymorth cyflogres i ychwanegu £1,498 at y cyflog gros cyn didyniadau ar gyfer pob Cynorthwydd Personol cymwys fel rhan o'r gyflogres nesaf sydd ar gael a rhoi'r lefel briodol o arian i'r gwasanaethau cymorth cyflogres.
- Dylai gwasanaethau cymorth cyflogres roi gwybod am y taliadau hyn drwy gyflwyniad taliadau llawn i CThEM ar neu cyn y dyddiad talu.
- Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru ariannu taliad o £1,498 ac unrhyw gostau yswiriant gwladol neu bensiwn cyflogwyr gwirioneddol yr aed iddynt.

### **Telir Cynorthwyr Personol o daliadau uniongyrchol, yn uniongyrchol gan eu cyflogwr (yr unigolyn sy'n cael gofal)**

- Mae awdurdodau lleol yn nodi Cynorthwyr Personol cymwys ar 31 Mawrth 2022.
- Mae awdurdodau lleol yn nodi unrhyw Gynorthwyr Personol newydd sydd wedi dechrau rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022.
- Mae awdurdodau lleol yn rhoi ffurflenni hawlio gwag i'r cyflogwr gan ofyn iddo eu hanfon ymlaen at ei Gynorthwyr Personol (ar yr amod yr ystyrir eu bod yn gymwys).
- Mae Cynorthwyr Personol yn cwblhau ffurflenni hawlio ac yn eu cyflwyno i'w cyflogwr a fydd yn eu hanfon ymlaen i'r awdurdod lleol perthnasol.
- Mae awdurdodau lleol yn rhoi £1,498 i'r cyflogwr ar gyfer pob Cynorthwydd Personol cymwys.
- Mae'r cyflogwr yn ychwanegu £1,498 at y cyflog gros cyn didyniadau ar gyfer Cynorthwyr Personol cymwys fel rhan o'r gyflogres nesaf sydd ar gael.
- Mae cyflogwyr yn rhoi gwybod am y taliadau hyn drwy gyflwyniad taliadau llawn i CThEM ar neu cyn y dyddiad talu.
- Mae cyflogwyr yn cadarnhau'r taliad i'r awdurdod lleol ac yn hawlio unrhyw gostau yswiriant gwladol neu bensiwn cyflogwr gwirioneddol yr aed iddynt.

## **Canllawiau Cyffredinol**

### **Amseru taliadau a hawliadau**

#### **Mae amseru yn hanfodol ar gyfer y cynllun hwn er mwyn sicrhau y caiff pob aelod o staff cymwys ei dalu ym mis Mehefin 2022**

Dylai cyflogwyr nodi aelodau cymwys o staff ar 31 Mawrth 2022 a chyflwyno rhestrau o'r staff hyn gan gynnwys eu henw, eu Rhif Yswiriant Gwladol a chategori eu swydd i awdurdodau lleol **erbyn 15 Ebrill 2022**. Bydd hyn yn rhoi amser i awdurdodau lleol brosesu'r rhestrau hyn a rhoi arian i gyflogwyr **erbyn 13 Mai 2022**.

Dylai cyflogwyr nodi unrhyw ddechreuwr newydd mewn rolau cymwys a chyflwyno rhestrau o'r staff hyn gan gynnwys eu henw, eu Rhif Yswiriant Gwladol a chategori

eu swydd i awdurdodau lleol **erbyn 18 Mai 2022**. Dylai hyn roi amser i awdurdodau lleol brosesu'r rhestrau hyn a darparu arian **erbyn 31 Mai 2022**.

Dylai cyflogwyr dalu £1,498 i'w cyflogeion fel rhan o'u cyflogres ar gyfer mis Mehefin 2022.

Dylai cyflogwyr gyflwyno unrhyw hawliadau am gostau yswiriant gwladol a/neu bensiwn cyflogwr i awdurdodau lleol o fewn pedair wythnos i wneud y taliad neu erbyn diwedd mis Gorffennaf 2022 fan bellaf. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol yr ariennir hawliadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn (ac eithrio taliadau fesul cam, apeliadau a dyblygiadau posibl).

Dylai awdurdodau lleol adhawlio'r arian y maent wedi'i roi i gyflogwyr gan Lywodraeth Cymru **erbyn 30 Medi 2022**. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol yr ariennir hawliadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn (ac eithrio taliadau fesul cam, apeliadau a thaliadau dyblyg posibl).

### **Crynodeb o'r llinell amser:**

- **31 Mawrth – Mae cyflogwyr yn nodi staff mewn swydd**
- **Erbyn 15 Ebrill – Mae cyflogwyr yn hysbysu ALLau am staff mewn swydd ar 31 Mawrth**
- **Erbyn 13 Mai – Mae ALLau yn rhoi arian i gyflogwyr ar gyfer staff mewn swydd ar 31 Mawrth.**
- **18 Mai – Mae cyflogwyr yn hysbysu ALLau am unrhyw ddechreuwr newydd**
- **Erbyn 31 Mai – Mae ALLau yn rhoi arian i gyflogwyr ar gyfer dechreuwr newydd**
- **Erbyn 30 Mehefin – mae cyflogwyr yn talu cyflogeion cymwys**
- **Erbyn 31 Gorffennaf – mae cyflogwyr yn hawlio costau YG a phensiwn cyflogwyr**
- **Erbyn 30 Medi – mae ALLau yn adhawlio arian gan Lywodraeth Cymru**

### **Taliadau ar ôl mis Mehefin 2022**

Dylai pob taliad gael ei wneud yn ystod mis Mehefin 2022 fel rhan o gyflogres mis Mehefin. Yr unig eithriadau ddylai fod lle mae staff wedi dewis cael y taliad wedi'i rannu dros bum mis.

Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau eithriadol lle nad oedd yn bosibl gwneud taliad llawn ym mis Mehefin 2022. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r taliad gael ei wneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny. Yn ddelfrydol, fel rhan o gyflogres mis Gorffennaf.

Ni fydd unrhyw daliadau a wneir ar ôl mis Mehefin 2022 yn newid y meini prawf cymhwysra ar gyfer y taliad. Felly, rhaid i unrhyw staff sy'n cael y taliad ar ôl mis Mehefin 2022 fodloni'r meini prawf cymhwysra. Ni fydd staff sy'n dechrau ym mis Gorffennaf 2022 (ac mewn misoedd dilynol) yn gymwys i gael y taliad.

## **Gwasanaethau sy'n rhychwantu mwy nag un awdurdod lleol**

Os bydd gan ddarparwr sawl lleoliad gofal neu os bydd gwasanaeth cymorth cartref yn ymestyn dros fwy nag un ardal ddaearyddol awdurdod lleol, gall yr awdurdodau lleol perthnasol a'r darparwr/Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, drwy gydsyniad, gytuno i un awdurdod lleol arwain ar y taliadau ar gyfer pob lleoliad ar gyfer y darparwr hwnnw neu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol honno er mwyn lleihau cymhlethdod a'r baich gweinyddol ar ddarparwyr ac awdurdodau lleol.

Bydd angen i'r cyflogwr gasglu ffurflenni hawlio wedi'u llofnodi gan eu staff a chyflwyno rhestr o staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2022 i'r awdurdod lleol y cytunwyd arno **erbyn 15 Ebrill 2022** a rhestr ddilynol o ddechreuwr newydd **erbyn 18 Mai 2022**.

## **Rheoli Data**

Mae pob sefydliad yn gyfrifol am sicrhau bod y data a gesglir ac a gedwir ganddo yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol y Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data (GDPR).

Gofynnir i staff gadarnhau ar eu ffurflen hawlio eu bod yn fodlon i'w gwybodaeth bersonol gael ei rhannu rhwng eu cyflogwr a'r awdurdod lleol at ddibenion gwneud y taliad hwn yn unig ac â Data Cymru er mwyn nodi taliadau dyblyg.

At ddibenion y Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data, yr awdurdodau lleol fydd y rheolyddion data. Felly, rhaid iddynt fodloni eu hunain bod y datganiad preifatrwydd yn y ffurflen hawlio yn ddigonol ar gyfer eu safonau diogelu data eu hunain. Felly, mae ALLau yn rhydd i ddiwygio'r datganiad preifatrwydd hwn.

Dim ond data wedi'u crynhoi – sy'n nodi'r costau a nifer y taliadau yn ôl cyflogwr – a gaiff eu casglu a'u cadw gan Lywodraeth Cymru.

Dylai awdurdodau lleol gasglu a chadw rhestrau o bob aelod cymwys o staff sy'n cael y taliad o £1,498. Bydd y data hyn yn cynnwys enwau, rhif yswiriant gwladol a chostau pob unigolyn.

Bydd cyflogwyr uniongyrchol (sef yr awdurdodau lleol neu'r cyflogwyr, o bosibl) yn casglu ac yn cadw pob un o'r ffurflenni hawlio a gyflwynir gan staff.

## **Taliadau Dyblyg**

Dim ond un taliad o £1,498 y caiff cyflogeion ei hawlio. Nodir hyn yn glir ar y ffurflen hawlio. **Ystyrir bod hawlio mwy nag un taliad yn dwyll.**

Dylai awdurdodau lleol edrych ar y wybodaeth a roddwyd iddynt gan gyflogwyr er mwyn sicrhau nad oes unrhyw daliadau dyblyg yn eu hardaloedd awdurdod lleol. Dylai'r gwiriad hwn fod yn seiliedig ar rifau yswiriant gwladol. Dylai'r gwiriad cyntaf gael ei gynnal gan awdurdodau lleol cyn i arian gael ei ryddhau i gyflogwyr ym mis Mai 2022.

Yn dilyn taliadau mis Mehefin 2022, bydd Data Cymru yn cynnal gwiriad dyblygiadau ledled Cymru er mwyn sicrhau nad oes unrhyw daliadau dyblyg rhwng dau

awdurdod lleol (neu fwy). Er mwyn cynnal y gwiriadau hyn, bydd angen i gytundebau rhannu data fod ar waith ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Ar ôl y gwiriad hwn, bydd Data Cymru yn rhoi gwybodaeth i bob awdurdod lleol perthnasol am unrhyw daliadau dyblyg a nodwyd.

Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio eu prosesau casglu dyledion eu hunain i adennill unrhyw daliadau dyblyg.

## **Rheoli'r Cynllun**

O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at awdurdodau lleol yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am nifer y dyfarniadau y maent wedi'u hariannu ac wedi cytuno i'w hariannu. Diben y ceisiadau hyn yw helpu Llywodraeth Cymru i reoli'r cynllun yn fefnol ac ni ddylent beri oedi i'r broses o roi arian i ddarparwyr gofal na chyflogwyr.

Ni ddylai awdurdodau lleol drosglwyddo rhestrau manwl o gyflogeion i Lywodraeth Cymru.

## **Gorbenion/Costau gweinyddol/Ardoll Prentisiaethau**

### ***Costau gweinyddu'r cynllun i awdurdodau lleol***

Caiff awdurdodau lleol hawlio costau gorbenion ychwanegol o ganlyniad i weinyddu'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru. Gallant wneud cais i'r costau hyn gael eu had-dalu ar yr amod eu bod: yn amlwg yn ychwanegol at y sail costau bresennol. Er enghraifft, ni fyddai costau staff presennol awdurdodau lleol yn cael eu had-dalu ond gallai taliadau goramser i staff presennol awdurdodau lleol sy'n gweithio ar y cynllun gael eu had-dalu ar yr amod y gall yr awdurdod lleol ddangos bod angen y goramser er mwyn cyflwyno'r cynllun yn llwyddiannus.

Gellir hawlio'r costau hyn fel rhan o ffurflen 2, sef ffurflen hawlio awdurdodau lleol.

### ***Costau Gweinyddol Cyflogwyr***

Caiff pob cyflogwr, gan gynnwys awdurdodau lleol, hawlio costau gwneud y taliad (e.e. costau sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau i'r gyflogres). Ad-delir y costau hyn ar gyfradd safonol o £2 fesul hawliad.

At hynny, caiff cyflogwyr hawlio costau gorbenion lle y gallant ddangos fod gweithredu'r taliad o £1,498 wedi achosi iddynt fynd i gostau ychwanegol sylweddol sy'n fwy na'r taliad o £2 fesul hawliad y maent yn gymwys i'w gael fel y nodwyd uchod. Dylai unrhyw hawliadau o'r fath gael eu hategu gan dystiolaeth (er enghraifft anfoneb gan asiantaeth cyflogres).

Os bydd cyflogwr yn gymwys i dalu'r ardoll prentisiaethau, gall adhawlio costau'r ardoll sy'n ymwneud â'r taliad. Ni ddylai hyn fod yn fwy na 0.5% o'r hawliad.

Gellir hawlio unrhyw rai o'r costau hyn fel rhan o ffurflenni 2, 4 neu 6.



## **Y broses apelio**

Nodir y broses apelio yn y canllawiau cyhoeddiedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael.

## **Ffurflenni i'w defnyddio (gweler Atodiad A)**

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ffurflenni electronig i awdurdodau lleol. Bydd Ffurflen 1 yn Microsoft Word, bydd pob ffurflen arall yn Microsoft Excel.

Ffurflen 1 - Ffurflen hawlio cyflogeion. Bwriedir i'r ffurflen hon wneud y canlynol:

- Helpu'r cyflogai i ddod o hyd i gyngor ar sut y gallai'r taliad hwn effeithio ar ei fudd-daliadau.
- Gofyn i gyflogeion hysbysu eu cyflogwr am unrhyw ffurflenni hawlio dyblyg y maent wedi'u cael
- Hysbysu cyflogeion mai dim ond un taliad y gallant ei gael ac y bydd cyflwyno hawliadau am fwy nag un taliad yn dwyll.
- Gofyn i'r cyflogai gadarnhau ei ddewis ddull talu (un taliad neu bum taliad misol cyfartal).
- Rhoi gwybod i'r cyflogai sut y caiff ei ddata personol eu defnyddio a'u rhannu er mwyn gweinyddu'r taliad (gwybodaeth am breifatrwydd).
- Gofyn i'r cyflogai gadarnhau ei fod yn gymwys i gael y taliad.

Ffurflen 2 – ffurflen hawlio awdurdodau lleol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ar gyfer staff a gyflogir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

Ffurflen 3 – Ffurflenni hysbysu cyflogwyr. Mae'r ffurflen hon yn rhestru pob aelod cymwys o staff. Fe'i defnyddir gan yr awdurdod lleol i roi arian i'r cyflogwr. Gellir defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer y staff cymwys ar 31 Mawrth 2022 ac unigolion sy'n ymuno ar ôl hynny.

Ffurflen 4 – ffurflen hawlio cyflogwyr. Mae'r ffurflen hon yn debyg i ffurflen 3 ond mae'n cynnwys costau cyflog gwirioneddol pob aelod o staff. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon ar ôl i'r £1,498 gael ei dalu a phan fydd cyflogwyr yn gwybod union gostau unrhyw gostau pensiwn neu yswiriant gwladol cyflogwr cysylltiedig.

Ffurflen 6 – ffurflenni hawlio awdurdodau lleol. Bwriedir i'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan yr awdurdod lleol i adennill costau taliadau y mae wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru.

## **Canllawiau i Awdurdodau Lleol**

### **Cyfathrebu â Chyflogwyr a Chyflogeion**

Mae'n bwysig bod gan gyflogwyr a chyflogeion un pwynt cyswllt ar gyfer

### **Tystiolaeth a dilysu hawliadau**

Er ein bod yn cydnabod ei bod yn anodd casglu dystiolaeth bendant i ategu pob hawliad, rhaid i gyflogwyr, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech resymol i ddiogelu arian cyhoeddus a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau mai dim ond er mwyn gwneud taliadau i staff cymwys y caiff arian ei ddarparu.

Pan fydd awdurdodau lleol yn cael ffurflenni hawlio sy'n rhestru staff cymwys gan gyflogwyr, dylent sicrhau bod categori swydd priodol wedi'i nodi ar y ffurflen hawlio ar gyfer pob aelod o staff yr hawlir ar ei gyfer sy'n dangos ei fod mewn rôl gymwys (fel y nodir yn y canllawiau ar gymhwystra).

Hefyd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth am wasanaethau wedi'u comisiynu, dylai awdurdodau lleol asesu a yw nifer y taliadau yr hawlir ar eu cyfer yn rhesymol o ystyried y math o wasanaethau a ddarperir gan bob darparwr wedi'i gomisiynu a maint y gwasanaethau hynny.

Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau na fydd hawliadau am yswiriant gwladol cyflogwr yn fwy na 13.8%.

Dylai awdurdodau lleol herio unrhyw hawliadau sy'n cynnwys cyfraddau pensiwn cyflogwr sy'n fwy na 6%.

Dylai pob awdurdod lleol gynnal meistr-gofnod/taenlen o bob aelod cymwys o staff. Dylai gynnwys rhif yswiriant gwladol pob aelod cymwys o staff sydd wedi cael y taliad. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i ochel rhag taliadau dwbl, lle y gall staff fod wedi gweithio i fwy nag un cyflogwr

Bydd Data Cymru yn cynnal cofrestr i Gymru gyfan o enwau a rhifau yswiriant gwladol pobl sydd wedi cael y taliad ar ran yr awdurdodau lleol. Defnyddir y gofrestr hon i edrych am daliadau dyblyg rhwng awdurdodau lleol. Bydd y gofrestr hon ond yn cynnwys rhestr o enwau a rhifau yswiriant gwladol yn ôl yr awdurdod lleol a ariannodd y taliadau. Bydd angen i'r awdurdodau lleol perthnasol ymchwilio i unrhyw daliadau dyblyg.

**Cyflogwyr ddylai** gasglu a chadw ffurflenni hawlio wedi'u cwblhau ar gyfer eu cyflogeion.

**Awdurdodau Lleol** ddylai gasglu a chadw gwybodaeth gan gyflogwyr sy'n dangos gwerth cyfanswm y taliadau i chyflogeion.

Y dystiolaeth ofynnol sydd ei hangen yw ffurflen 3, sef ffurflen hawlio cyflogwr gychwynnol, a ffurflen 4, sef ffurflen hawlio cyflogwr derfynol.

Lle y bo'n bosibl, dylai'r ffurflenni hyn gael eu hategu â thystiolaeth gan y cyflogwr pan fydd tystiolaeth o'r fath ar gael. Gallai gynnwys:

- Adroddiad o system ariannol a/neu system gyflogres y cyflogwr sy'n dangos union gostau'r dyfarniad;
- unrhyw wybodaeth arall y gall y cyflogwr ei ddarparu'n hawdd i ategu'r hawliad.

Ni ddylai cyflogwyr gyflwyno'r canlynol:

- Copïau o slipiau cyflog cyflogeion
- Unrhyw wybodaeth bersonol arall am gyflogai nad oes ei hangen er mwyn dangos union werth y taliad.

Bydd awdurdodau lleol a chyflogwyr yn derbyn cyfrifyddu llyfr agored fel y mae wedi'i fabwysiadu'n llwyddiannus ar gyfer cynlluniau eraill. Bydd hyn yn darparu ar gyfer unrhyw brofion samplu/hapwiriadau pan ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

**Rhaid i gyflogwyr fod yn ymwybodol bod angen iddynt gadw'r ffurflenni hawlio sy'n ategu eu hawliadau a'i bod yn bosibl y gofynnir iddynt eu cyflwyno fel tystiolaeth. Gallai methu â chyflwyno'r ffurflenni hyn arwain at adennill arian.**

### **Grant Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol**

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cynllun grant penodol i ariannu'r taliad hwn. Caiff awdurdodau lleol lythyrau cynnig grant a gallant hawlio arian gan Lywodraeth Cymru unwaith y byddant wedi llofnodi'r llythyrau hyn a'u dychwelyd, yn unol â thelerau ac amodau'r grant.

### **Trefniadau talu rhwng awdurdodau lleol a chyflogwyr**

Mater i awdurdodau lleol benderfynu arno yw hwn. Dylent geisio defnyddio systemau talu presennol, os ydynt yn briodol. Os na fydd system dalu briodol yn bodoli eisoes, dylai awdurdodau lleol lunio trefniant sylfaenol ar gyfer rhoi grantiau gan ddefnyddio cymalau a thelerau ac amodau safonol.

### **Canllawiau i Gyflogwyr**

### **Ymunwyr – Staff a Gyflogwyd ar ôl 31 Mawrth 2022**

Efallai y bydd rolau staff a gyflogwyd ar ôl 31 Mawrth yn gymwys i gael y taliad (ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysra – gweler y canllawiau ar gymhwysra). Pan fydd cyflogwyr yn recriwtio dechreuwr newydd (ar ôl 31 Mawrth 2022), rhaid iddynt ofyn iddo a yw wedi cyflwyno ffurflen hawlio ar gyfer y taliad o £1,498 i gyflogwr blaenorol. Os ydyw, ni ddylai cyflogwyr wneud unrhyw beth gan y bydd yr aelodau hyn o staff yn cael eu talu gan eu cyflogwr blaenorol. Os nad ydyw, neu os nad yw wedi gweithio mewn rôl gymwys yn flaenorol, dylai'r cyflogwr newydd

roi ffurflen hawlio iddo a'i gynnwys ar y rhestr o ddechreuwr. Dylai'r rhestr hon gael ei chyflwyno i'r awdurdod lleol erbyn 18 Mai 2022. Os na fydd cyflogwyr yn cyflwyno rhestr o ddechreuwr newydd erbyn y dyddiad hwn, tybir nad oes unrhyw ddechreuwr newydd.

Bydd yr awdurdod lleol yn anfon arian ymlaen at gyflogwyr er mwyn talu costau'r taliad o £1,498 ar gyfer pob aelod o staff ar y rhestr o staff a oedd yn cael eu cyflogi ar 31 Mawrth 2022 a'r rhestr o ddechreuwr newydd cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol cyn dechrau mis Mehefin 2022.

### **Ymunwyr Hwyr – Staff a gyflogwyd ar ôl 18 Mai 2022**

Os bydd unrhyw staff yn ymuno mewn rôl gymwys ar ôl i'r rhestr o ddechreuwr gael ei chyflwyno ar 18 Mai 2022, dylai cyflogwyr roi ffurflenni hawlio iddynt ac, ar yr amod eu bod yn cael eu llofnodi a'u dychwelyd, dylent dalu'r £1,498 iddynt fel rhan o gyflogres mis Mehefin. Wedyn, dylai cyflogwyr adennill yr arian gan yr awdurdod lleol yn ôl-weithredol.

Os na all cyflogwr ariannu costau taliadau i ymunwyr hwyr, bydd yn rhaid iddo gysylltu â'i awdurdod lleol i weld a all yr awdurdod lleol anfon arian ymlaen at y cyflogwr erbyn cyflogres Mehefin 2022. Os na fydd hyn yn bosibl, dylai'r awdurdod lleol ddarparu arian cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ymunwyr hwyr na ellir eu talu ym mis Mehefin eu talu ym mis Gorffennaf 2022.

### **Ymadawyr – Staff a oedd yn cael eu Cyflogi ar 31 Mawrth 2022 ond sy'n gadael cyn Cyflogres mis Mehefin.**

Dylai pob aelod o staff mewn rolau cymwys ar 31 Mawrth 2022 gael y taliad. Er y bydd y rhan fwyaf o staff yn dal i fod mewn swydd tan fis Mehefin 2022, efallai y bydd rhai yn gadael cyflogaeth cyn dyddiad cyflogres mis Mehefin.

Pan fydd cyflogai yn gadael, dylid ei hysbysu y bydd yn dal i gael y taliad, ar yr amod ei fod wedi cyflwyno ffurflen gais (ffurflen 1) ond na chaiff ei dalu tan gyflogres mis Gorffennaf.

Dylai cyflogwyr ddilyn y broses arferol ar gyfer staff sy'n gael eu cyflogaeth gan gynnwys cyflwyno hysbysiad P45, os yw'n briodol. Fodd bynnag, anogir cyflogwyr i gadw manylion cyflogeion er mwyn iddynt allu gwneud taliad ar ôl i P45 gael ei gyflwyno.

Dylai'r cyflogwr ddilyn gweithdrefn y gyflogres ar gyfer adrodd a gwneud 'taliad ar ôl gadael' i CThEM. Os rhoddwyd P45 i'r cyflogai pan adawodd, dylid defnyddio cod treth OT Week1.

Os na chyflwynwyd P45, dylai'r cyflogwr ddefnyddio'r cod treth hysbys olaf.

At ddibenion Yswiriant Gwladol, dylid asesu taliad ar ôl gadael gan ddefnyddio cyfnod enillion wythnosol.

Os dilynir y broses uchod, ni fydd angen i gyflogwyr gysylltu â staff cymwys sydd wedi gadael eu cyflogaeth cyn gwneud taliad fel rhan o gyflogres mis Mehefin.

**Disgwylir i gyflogwyr wneud taliadau i bob aelod o'r staff a restrir mewn swydd ar 31 Mawrth 2022 p'un a ydynt yn dal i fod mewn swydd neu wedi gadael eu cyflogaeth ers hynny.**

Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd yr aelod o staff wedi'i ddiswyddo (gweler isod).

### **Staff sydd wedi'u diswyddo**

Os oedd aelod o staff mewn swydd gymwys ar 31 Mawrth 2022 ond ei fod wedi'i ddiswyddo cyn i'r taliad gael ei wneud (yng nghyflogres Mehefin 2022), ni fydd yn gymwys i gael y taliad.

Os caiff penderfyniad i ddiswyddo gweithiwr gofal sydd wedi cael ei ddiswyddo ei wrthdroi neu os dyfernir ei bod yn annheg drwy apêl neu gan dribiwnlys cyflogaeth, bydd yn gymwys i gael y taliad.

### **Taliadau Fesul Cam**

Yn ddelfrydol, gwneir pob taliad fel rhan o gyflogres Mehefin 2022 mewn un cyfandaliad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai'n well gan gyflogeion rannu'r taliad dros amser mewn ffordd sy'n fwy addas i'w hamgylchiadau personol. Mewn achosion o'r fath, mae opsiwn i gael y taliad mewn pum rhandaliad cyfartal o £299.60 dros 5 mis yn olynol. Os dewir yr opsiwn i gael rhandaliadau, **dylai'r rhandaliadau ddechrau ym mis Mehefin 2022** a chael eu talu'n llawn cyn diwedd mis Hydref 2022. Yn yr achosion hyn, bydd yr awdurdod lleol yn rhoi £1,498 i'r cyflogwr ymlaen llaw er mwyn ariannu pob un o'r pum rhandaliad. Bydd yn rhaid i'r cyflogwr roi tystiolaeth i'r awdurdod lleol am argostau unwaith y bydd pob un o'r pum rhandaliad wedi'u talu.

Os bydd cyflogeion yn dewis cael y taliad mewn rhandaliadau, bydd yn rhaid i gyflogwyr gyflwyno ceisiadau i ad-dalu costau cyflogwyr i awdurdodau lleol **erbyn 31 Tachwedd 2022** a bydd yn rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno hawliadau am arian gan Lywodraeth Cymru **erbyn 16 Rhagfyr 2022**.

Dim ond y cyflogai a all benderfynu a ddylai ddewis taliadau fesul cam. Ni ddylai cyflogwyr benderfynu p'un a ddylid gwneud taliadau fesul cam ai peidio.

Os bydd cyflogai sy'n cael taliad fesul cam yn gadael cyflogaeth cyn i bob un o'r taliadau gael eu gwneud, bydd y cyflogai yn cael pob un o'i daliadau sy'n weddill fel rhan o'i daliad cyflogres terfynol.

Nid yw taliadau fesul cam ar gael i bobl nad ydynt yn gweithio mwyach i'r cyflogwr sy'n gwneud y taliad. Telir y £1,498 i bob ymadawr mewn cyfandaliad.

Dim ond i staff a delir yn fisol y mae'r opsiwn hwn i gael taliadau fesul cam ar gael. Bydd staff a delir yn wythnosol yn cael y taliad llawn o £1,498 mewn un cyfandaliad.

## **Sut y gall cyflogwyr brofi bod y taliadau wedi'u gwneud**

Gofynnir i gyflogwyr gyflwyno ffurflen 4 wedi'i chwblhau i'r awdurdod lleol. Yn ddelfrydol, dylai'r ffurflen hon gael ei hategu gan adroddiad ariannol gan y cyflogwyr sy'n dangos bod y taliadau wedi'u gwneud i'r staff a restrir ar y ffurflen. Fodd bynnag, bydd y ffurflen hawlio yn ddigon i ddangos bod y taliadau wedi'u gwneud a rhyddhau unrhyw arian atodol ar gyfer costau yswiriant gwladol neu bensiwn cyflogwr, ar yr amod y caiff y costau eu hawlio o fewn y paramedrau a nodir isod:

- ni fydd yr un hawliad am yswiriant gwladol cyflogwr yn fwy na 13.8%
- ni fydd yr un hawliad yn cynnwys cyfraddau pensiwn cyflogwr sy'n fwy na 6%.

## **Dylai cyflogwyr ddsbarthu'r incwm i ariannu'r taliadau hyn yn eu cyfrifon**

Dylid cydnabod y taliadau o £1,498 ac argostau gan Lywodraeth Cymru drwy awdurdodau lleol yng nghyfrifon cyflogwyr fel incwm trethadwy. Bydd cyflogwyr yn gallu hawlio didyniad cyfatebol yn eu cyfrifon am gostau cyflogeion ac, felly, nid oes unrhyw effaith net ar gyfanswm elw trethadwy'r cyflogwyr.

## **Pensiynau**

Mae p'un a yw'r taliad yn bensiynadwy yn dibynnu ar delerau ac amodau cynllun pensiwn cyflogai. Fel arfer, mae taliadau bonws yn bensiynadwy oni bai bod amod yng nghynllun pensiwn y cyflogai sy'n dweud nad ydynt yn bensiynadwy. Gofynnir i gyflogwyr sicrhau y caiff y taliadau eu trin yn briodol.

Os bydd y taliad yn bensiynadwy, caiff cyfraniad pensiwn ei ddiwyddu o daliad y cyflogai a bydd y cyflogwr yn mynd i gost pensiwn. Caiff unrhyw gostau pensiwn cyflogwr sy'n ymwneud â'r taliad eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Os bydd cynlluniau pensiwn yn rhoi disgrisiwn i gyflogwyr benderfynu a yw taliad bonws yn bensiynadwy ai peidio, anogir cyflogwyr i drin y taliad fel un nad yw'n bensiynadwy er mwyn sicrhau bod y cyflogai yn cael y budd mwyaf posibl o'r taliad.

## **Penderfynu ar gostau Yswiriant Gwladol a phensiwn cyflogwr a darparu tystiolaeth amdanynt**

### Yswiriant Gwladol

Os bydd cyflogres cyflogai yn cynhyrchu cost yswiriant gwladol o fwy na £206.73, dylai'r cyflogwr gynnwys £206.73 fel eu cost yswiriant gwladol ychwanegol ar ei ffurflen hawlio.

Os bydd cyflogres y cyflogai wedi cynhyrchu cost yswiriant gwladol o lai na £206.73, dylai'r cyflogwr gynnwys cost lawn yswiriant gwladol y cyflogai ar ei ffurflen hawlio.

Os na fydd cyflogres cyflogai wedi cynhyrchu cost yswiriant, ni ddylid cynnwys unrhyw gost yswiriant gwladol ar ei ffurflen hawlio.

## Pensiynau

Os bydd y taliad yn bensiynadwy o dan delerau ac amodau'r cyflogai, dylai cyflogwyr gyfrifo cyfanswm cost pensiwn cyflogwr fel canran o gyfanswm y cyflog cyn unrhyw ddidyniadau. Wedyn, dylent gymhwyso'r ganran hon at £1,498 a chynnwys y ffigur hwn ar eu ffurflen hawlio.

## **Marw yn y Swydd**

Os bydd gweithiwr gofal cymwys a oedd mewn swydd ar 31 Mawrth 2022 wedi marw ers hynny, gwneir y taliad i'w ystad. Ni fydd y taliad hwn yn dylanwadu ar unrhyw gronfeydd eraill a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu teuluoedd gweithwyr gofal sydd wedi marw o ganlyniad i bandemig COVID-19 ac ni fydd unrhyw gronfeydd o'r fath yn dylanwadu ar y taliad.

## **Ffurflen Hawlio Cyflogeion**

Atodir y ffurflen hon i'r canllawiau hyn (Atodiad A – ffurflen 1). Mae'n nodi ble y gall cyflogeion gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar oblygiadau'r taliad hwn i fudd-daliadau, treth ac yswiriant gwladol ac ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr.

Bydd y ffurflen yn gofyn i'r cyflogai ddatgan y canlynol: ei fod yn gymwys; mai dim ond unwaith y bydd yn hawlio taliad waeth faint o swyddi cymwys y gall fod wedi'u dal; y bydd yn rhoi gwybod am unrhyw daliadau dyblyg. Mae'r ffurflen yn gofyn i gyflogeion a ydynt am gael un taliad o £1,498 neu bum rhandaliad misol o £299.60 ac yn eu hysbysu am y wybodaeth bersonol a gaiff ei rhannau ag awdurdod lleol a Data Cymru er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Er mwyn cyflymu'r broses ac osgoi costau argraffu a phostio, gellir anfon ffurflenni hawlio at gyflogeion a'u dychwelyd yn electronig. Bydd ffurflenni electronig yn ddilys ar yr amod y cânt eu cyflwyno drwy gyfrif e-bost a ddelir yn enw'r cyflogai.

Rhaid i ffurflenni hawlio gael eu cadw gan y cyflogwr uniongyrchol am o leiaf 24 mi ar ôl dyddiad y taliad. Gellir cadw'r ffurflenni hyn yn electronig neu mewn copi caled. Efallai y gofynnir i gyflogwyr gyflwyno'r ffurflenni os bydd awdurdodau lleol neu archwilwyr yn gofyn iddynt wneud hynny. Gallai methu â chyflwyno ffurflenni hawlio er mwyn ategu hawliadau arwain at adennill arian.

## **Ffurflenni**

Dylid dosbarthu Ffurflen 1, sef ffurflen hawlio cyflogeion, fel y'i darperir, oni bai:

- bod angen i awdurdod lleol ddiwygio'r adran "Sut y caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio" er mwyn cydymffurfio â phrotocolau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data; neu
- bod awdurdod lleol am egluro rolau a chyfrifoldeb sy'n ymwneud â thaliadau i Gynorthwyr Personol.

Mae pob ffurflen arall hefyd yn cael ei darparu mewn fformat Microsoft Excel a dylid ei defnyddio fel y'i darperir.

## **Pwy ddylai ddefnyddio'r ffurflenni?**

### **Awdurdodau Lleol**

**Ffurflen 2** - i gyflwyno hawliad i Lywodraeth Cymru ar gyfer staff a gyflogir gan ALLau.

**Ffurflen 6** - i gyflwyno hawliad i Lywodraeth Cymru er mwyn adennill costau talu gofalwyr gofal a chynorthwyr personol.

### **Darparwyr Gofal**

**Ffurflen 3** – i gyflwyno enwau staff cymwys ar 31 Mawrth 2022 i ALLau i wneud cais am £1,498.

**Ffurflen 3** – i gyflwyno enwau staff cymwys a oedd yn cael eu cyflogi rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022 i ALLau.

**Ffurflen 4** - i gyflwyno hawliad terfynol i ALL ar ôl i daliadau gael eu gwneud i gyflogeion er mwyn gwneud y canlynol:

- adennill unrhyw gostau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr;
- hawlio'r ad-daliad gorbenion o £2 fesul hawliad; a/neu
- hawlio unrhyw ardoll prentisiaethau.

### **Cyflogeion Cymwys**

**Ffurflen 1** – i hawlio'r taliad